Estyn

# Arweiniad i arolygwyr

# Beth rydym yn ei arolygu: Trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol

## Ar gyfer arolygiadau o 2024



Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Cyflwyniad i 'Beth rydym yn ei arolygu' ..... 1**

Gwerthuso pob maes arolygu (MA) ..... 1

Yr adroddiadau arolygu ..... 1

Ynglŷn â'r trefniadau trochi yn y Gymraeg yn yr awdurdod lleol ..... 1

Crynodeb ..... 2

Argymhellion ..... 2

Beth sy'n digwydd nesaf ..... 2

Meysydd arolygu ..... 4

**Fframwaith drafft 2024 ..... 5**

1 Addysgu a dysgu ..... 5

2 Lles, gofal, cymorth ac arweiniad ..... 6

3 Arwain a gwella ..... 7

## Cyflwyniad i 'Beth rydym yn ei arolygu'

Mae'r llawlyfr hwn yn amlinellu'r hyn y mae angen i arolygwyr ei ystyried wrth werthuso'r tri maes arolygu ar gyfer trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol. Mae'n esbonio 'Beth rydym yn ei arolygu'. Mae'r arweiniad yn ddeunydd darllen hanfodol ar gyfer arolygwyr cofnodol a holl aelodau eraill y tîm arolygu, gan gynnwys yr enwebai. Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol ar gyfer darparwyr i gefnogi eu dealltwriaeth o'r arweiniad arolygu. Mae llawlyfr ar wahân sy'n esbonio'r broses a'r fethodoleg arolygu, sef 'Sut rydym yn arolygu'.

Mae'r tri maes arolygu wedi'u hamlinellu isod:

MA1: Addysgu a dysgu

MA2: Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

MA3: Arwain a gwella

Mae mwy o wybodaeth am arolygiadau ar ein gwefan www.estyn.llyw.cymru

### Gwerthuso pob maes arolygu (MA)

Ni fydd timau arolygu'n rhoi graddau cyffredinol ar gyfer pob maes arolygu. Fodd bynnag, byddant yn llunio gwerthusiad cadarn a thrylwyr o'r trefniadau trochi yn y Gymraeg yn yr awdurdod lleol a'i heffaith ar ddysgu a lles disgyblion.

Bydd arolygwyr bob amser yn cynnwys gwerthusiadau clir yn gysylltiedig â'r prif ffocysau ym mhob maes arolygu, fel y dangosir. Fodd bynnag, efallai y bydd yr hyn y mae arolygwyr yn adrodd arno ym mhob maes arolygu yn wahanol yn dibynnu ar gyd-destun ac arwyddocâd cymharol yr hyn y maent yn dod o hyd iddo ym mhob awdurdod lleol. Gallai arolygwyr adrodd 'trwy eithriad'. Mae hyn yn golygu y gallent adrodd ar rai agweddau dim ond lle mae cryfderau neu feysydd I'w gwella penodol.

Pan fydd arolygwyr yn nodi unrhyw arfer ddiddorol neu arloesol sy'n werth ei rhannu'n ehangach, byddant yn cynnwys ciplun o fewn yr adroddiad (paragraff byr). Byddwn yn arddangos amrywiaeth o'r cipluniau hyn ar ein gwefan. Pan fydd arolygwyr yn nodi diffygion difrifol mewn un maes arolygu neu fwy, bydd angen lefel o weithgarwch dilynol ar yr awdurdod lleol yn gysylltiedig â'i drefniadau ar gyfer trochi yn y Gymraeg. Ceir mwy o arweiniad am weithgarwch dilynol yn 'Sut rydym yn arolygu'.

### Yr adroddiadau arolygu

Yn dilyn arolygiad, bydd pob darparwr yn cael adroddiad. Cyhoeddir yr adroddiadau ar wefan Estyn. Bydd dyddiadau cyhoeddi i'w gweld ar y wefan. Mae'r canlynol yn amlinellu beth sy'n cael ei gynnwys ym mhob un o adrannau'r adroddiad.

### Ynglŷn â'r trefniadau trochi yn y Gymraeg yn yr awdurdod lleol

Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn fyr ac yn cynnwys gwybodaeth gefndir ffeithiol yn unig am y trefniadau ar gyfer trochi yn y Gymraeg yn yr awdurdod lleol. Ni fydd yn cynnwys unrhyw werthusiad o'r ddarpariaeth. Mae'r arolygydd cofnodol fel arfer yn

cytuno ar gynnwys yr adran hon gyda'r awdurdod lleol yn ystod yr arolygiad ac yn ystod y gwiriad ffeithiol o'r adroddiad drafft cyn ei gyhoeddi. Os oes anghytuno am gynnwys yr adran hon, bydd yr arolygydd cofnodol yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch beth i'w gynnwys yn yr adroddiad. Bydd yr adran hon yn cynnwys gwybodaeth fras am y canlynol:

- natur a lleoliadau'r darparwyr trochi yn y Gymraeg yn yr awdurdod lleol
- cefndir ac amgylchiadau'r disgyblion, unrhyw ffactorau perthnasol eraill, fel cyfran y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r graddau y mae disgyblion yn gadael neu'n ymuno â'r darparwr yn ystod y flwyddyn academaidd (yn dibynnu ar niferoedd)
- dyddiad agor y darparwr trochi yn y Gymraeg o fewn yr awdurdod lleol
- mis/blwyddyn arolygiad trochi Cymraeg blaenorol yr awdurdodau lleol

### Crynodeb

Bydd crynodeb o adroddiad arolygu yn crynhoi prif bwyntiau'r adroddiad arolygu. Bydd y crynodeb yn cynnwys y prif gryfderau, y prif feysydd i'w gwella a'r argymhellion.

### Argymhellion

Dylai argymhellion ddod yn uniongyrchol o gynnwys yr adroddiad, nodi beth mae angen ei wella, a'u hysgrifennu yn nhrefn eu blaenoriaeth.

### Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr adran 'Beth sy'n digwydd nesaf' yn amlinellu'r hyn mae angen i'r darparwr ei wneud ar ôl yr arolygiad. Ym mhob achos, bydd angen i arweinwyr ymateb i'r argymhellion trwy roi'r camau sydd eu hangen ar waith i wneud y gwelliannau a nodwyd gan y tîm arolygu.

Dylai nodi unrhyw cipluniau arfer ddiddorol neu arloesol yr ydym wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Bydd yr adran hon yn esbonio a oes angen gweithgarwch dilynol ar drefniadau trochi yn y Gymraeg yr awdurdod lleol. Bydd y rhesymau dros y gweithgarwch dilynol fod yn glir ym mhrif gorff yr adroddiad.

### Y prif werthusiad

Bydd y prif werthusiad yn adrodd ar:

(a) ansawdd yr addysg a ddarperir yn y ganolfan

(b) i ba raddau y mae'r addysg a ddarperir yn y ganolfan yn bodloni anghenion ystod y disgyblion

(c) y safonau addysgol a gyflawnir yn y ganolfan

(ch) ansawdd yr arweinyddiaeth a rheolaeth trefniadau trochi yn y Gymraeg yr awdurdod lleol, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol yn cael eu rheoli'n effeithiol

(d) cyfraniad y ganolfan at les y disgyblion hynny

Bydd cipluniau yn cael eu cynnwys yn yr adran hon, hefyd. Bydd yn cynnwys pennawd byr sy'n dal thema'r ciplun, ac wedyn y naratif. Bydd y pennawd a'r naratif yn cael eu cynnwys mewn blwch ar wahân. Yn ogystal, efallai y byddwn yn gwahodd yr awdurdod lleol i gyfrannu astudiaeth achos fanylach pan fo hynny'n briodol.

**Sail dystiolaeth yr adroddiad**

Mae arolygwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth i wneud yn siŵr bod eu canfyddiadau yn ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy. Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn esbonio'r ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd ganddynt ynghyd ag ystod y gweithgareddau a gyflawnwyd ganddynt yn ystod eu hymweliad.

## Meysydd arolygu

Mae'r adran ganlynol yn esbonio beth mae pob maes arolygu yn ei gwmpasu a beth mae angen i arolygwyr ei gadw mewn cof wrth werthuso pob un. Mae'r meysydd arolygu wedi'u rhifo yn 1 – 3, ond maent i gyd yr un mor bwysig â'i gilydd.

Bydd yr adroddiad arolygu'n cwmpasu pob un o'r meysydd arolygu. Mi fydd bob amser yn adrodd ar bob un o'r prif ffocysau, ond nid yn nhrefn y llawlyfr hwn, o reidrwydd. Dyma'r prif ffocysau ar gyfer pob maes arolygu:

| 1. Addysgu a dysgu | 2. Gofal, cymorth a lles | 3. Arwain a gwella |
|---|---|---|
| **Ffocws**<br>Pa mor effeithiol y mae'r cwricwlwm, asesu ac addysgu yn cynorthwyo'r **holl** ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mewn perygl o ddeilliannau andwyol, er enghraifft y disgyblion hynny y mae tlodi yn cael effaith arnynt, y rhai ag ADY neu'r rhai â rhwystrau eraill a nodwyd rhag cynnydd i:<br>• ddysgu a gwneud cynnydd yn eu medrau Cymraeg?<br>• ddatblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth o'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau?<br>• ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu? | **Ffocws**<br>Pa mor effeithiol yw'r trefniadau gofal a chymorth o ran sicrhau bod yr **holl** ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mewn perygl o ddeilliannau andwyol, er enghraifft y disgyblion hynny y mae tlodi yn cael effaith arnynt, y rhai ag ADY neu'r rhai â rhwystrau eraill a nodwyd rhag cynnydd i:<br>• yn ddiogel a saff?<br>• yn mynychu'n rheolaidd?<br>• yn cael eu parchu a'u trin yn deg?<br>• yn datblygu medrau arwain ac yn ymgymryd â chyfrifoldeb?<br>• yn derbyn yr arweiniad a'r cymorth sydd eu hangen arnynt ar gyfer y camau nesaf yn eu datblygiad, gan gynnwys cymorth tra yn eu hysgolion cofrestredig? | **Ffocws**<br>Pa mor effeithiol y mae arweinwyr:<br>• yn rheoli trefniadaeth y darparwyr ar draws yr awdurdod lleol, gan gynnwys trefniadau derbyn?<br>• yn rheoli'r adnoddau ar gyfer trochi yn y Gymraeg ar draws yr awdurdod lleol?<br>• yn sicrhau bod pob digybl yn dysgu ac yn gwneud cynnydd mewn caffael y Gymraeg? ((Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd mewn perygl o ganlyniadau andwyol, er enghraifft y disgyblion hynny y mae tlodi'n effeithio arnynt, ag ADY neu rwystrau a nodwyd i ddysgu.)<br>• yn datblygu diwylliant, ethos cynhwysol a chyfeiriad strategol sy'n cefnogi cynnydd a lles yr holl ddisgyblion?<br>• yn nodi ac yn mynd i'r afael â meysydd i'w gwella a rheoli?<br>• yn sicrhau bod dysgu proffesiynol yn cefnogi gwelliant ac yn arfogi pob un o'r staff i gyflawni eu rolau? |

Bydd y tîm arolygu'n ystyried pob maes arolygu. Mae'n bosibl na fydd yr adroddiad yn adrodd ar bob un ar wahân, nac yn dilyn y drefn uchod ond byddant yn creu cysylltiadau rhwng y meysydd i adrodd stori unigryw'r darparwr a'i gyd-destun.

Mae cyfres o ddogfennau arweiniad atodol ar gael ar ein gwefan. Mae'r rhain yn rhoi mwy o wybodaeth am ein hymagweddau at arolygu agweddau penodol ar y fframwaith hwn.

# Fframwaith drafft 2024

Ar draws y fframwaith arolygu, bydd arolygwyr yn ystyried y meysydd ffocws o ran yr effaith y maent yn ei chael ar ddysgu a lles yr holl ddisgyblion.

## 1 Addysgu a dysgu

### Ffocws

Pa mor effeithiol y mae'r cwricwlwm, yr addysgu a'r asesu yn cynorthwyo'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mewn perygl o ddeilliannau andwyol, er enghraifft y disgyblion hynny y mae tlodi yn cael effaith arnynt, y rhai ag ADY neu'r rhai â rhwystrau eraill a nodwyd rhag cynnydd i:

- ddysgu a gwneud cynnydd yn eu medrau Cymraeg
- ddatblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth o'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau
- ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu

Dylai arolygwyr ystyried yr agweddau isod yn sgil y gwahaniaeth a wnânt i ddysgu'r disgyblion. Dylent ystyried pa mor dda y mae athrawon ac ymarferwyr eraill:

- yn sicrhau bod eu **haddysgu**:
    - yn galluogi disgyblion i gaffael a datblygu eu medrau Cymraeg mewn ystod o gyd-destunau
    - yn symud dysgu yn ei flaen ar y cyflymdra cywir ac yn rhoi'r lefel briodol o her a chymorth i'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y disgyblion hynny sydd ag ADY, a disgyblion y caiff tlodi ac anfantais effaith anffafriol arnynt
    - yn dangos disgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion
    - yn defnyddio holi ac adborth i gefnogi cynnydd disgyblion
    - yn ymateb i ddysgu'r disgyblion yn ystod gwersi a thros gyfnod, ac yn addasu yn unol â hynny
    - yn helpu disgyblion i ddeall eu cryfderau eu hunain a'r meysydd i'w gwella a datblygu i fod yn ddysgwyr effeithiol
    - yn gwneud yr amgylchedd dysgu yn ysgogol a difyr
    - yn trefnu darpariaeth sy'n gweddu'n dda i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac wedi'i seilio ar ddealltwriaeth gadarn o'u hanghenion
    - yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol ac ar y cyd
    - yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut, lle bo'n briodol
    - yn cynnwys darpariaeth i athrawon ddefnyddio staff ychwanegol i gefnogi dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn deall beth maent eisiau i ddisgyblion ei ddysgu a pham trwy **gyflwyno cwricwlwm** sydd:
    - yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg o fewn ehangder a dyfnder dysgu addas ar draws meysydd dysgu a phrofiad
    - yn adlewyrchu natur ddiwylliannol, ieithyddol, ac amrywiol y gymuned leol, Cymru, a'r byd ehangach

- **yn datblygu medrau disgyblion** yn systematig ac yn raddol yn ystod gwersi a thros gyfnod fel eu bod:
    - yn caffael y medrau Cymraeg angenrheidiol mewn siarad a gwrando, a darllen ac ysgrifennu, lle bo'n briodol
    - yn cymhwyso'u medrau ar lefel briodol ar draws y cwricwlwm

- yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu **agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu**, fel eu bod:
    - yn ymddwyn yn dda ac yn cymryd rhan yn gadarnhaol mewn gweithgareddau dysgu
    - yn dyfalbarhau neu'n chwilio am atebion newydd pan fyddant yn wynebu anawsterau
    - yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol gydag oedolion a'u cymheiriaid
    - yn ymateb yn gadarnhaol ac yn bwrpasol i adborth

## 2 Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

### Ffocws

Pa mor effeithiol yw'r trefniadau gofal a chymorth i sicrhau bod yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mewn perygl o ddeilliannau andwyol, er enghraifft y disgyblion hynny y mae tlodi yn cael effaith arnynt, y rhai ag ADY neu'r rhai â rhwystrau eraill a nodwyd rhag cynnydd i:

- yn ddiogel ac yn saff
- yn mynychu'n rheolaidd
- yn cael eu parchu a'u trin yn deg
- yn datblygu medrau arwain ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau
- yn derbyn yr arweiniad a'r cymorth sydd eu hangen arnynt ar gyfer y camau nesaf yn eu datblygiad, gan gynnwys cymorth tra yn eu hysgolion cofrestredig?

Dylai arolygwyr ystyried yr agweddau isod yn sgil y gwahaniaeth a wnânt i les a datblygiad y disgyblion. Dylent ystyried pa mor dda y mae athrawon ac ymarferwyr eraill:

- yn creu ac yn cynnal **diwylliant o ddiogelu** gan gynnwys dilyn gweithdrefnau amddiffyn plant fel bod disgyblion:
    - yn ddiogel ac yn saff
    - yn cael eu parchu a'u trin yn deg
    - yn rhydd rhag bwlio ac aflonyddu
    - yn rhydd rhag cam-drin corfforol, emosiynol a geiriol

- yn sicrhau bod disgyblion yn **mynychu'n rheolaidd**, er enghraifft trwy:
    - hyrwyddo a monitro presenoldeb, gan gynnwys presenoldeb grwpiau penodol
    - herio absenoldeb parhaus

  - gweithio mewn partneriaeth, er enghraifft gydag ysgolion partner, gwasanaethau lles addysg, gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, ac asiantaethau eraill

- yn cydlynu cymorth addas ar gyfer disgyblion ag **anghenion dysgu ychwanegol**, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol, pan fo'n briodol

- yn cefnogi ymddygiad cadarnhaol

- yn sicrhau bod disgyblion sydd â hanes o gael eu gwahardd yn dangos ymddygiad gwell ac agweddau gwell at ddysgu

- yn annog disgyblion i ddylanwadu ar fywyd a gwaith y ganolfan, yn datblygu medrau arwain ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau

- yn rhoi cyngor effeithiol a diduedd i ddisgyblion yn ymwneud â'r camau nesaf yn eu datblygiad, er enghraifft o ran eu cyfnod pontio i'r cam dysgu nesaf

## 3 Arwain a gwella

### Ffocws

Pa mor effeithiol y mae arweinwyr:

- yn rheoli trefniadaeth y darparwyr ar draws yr awdurdod lleol, gan gynnwys trefniadau derbyn
- yn rheoli'r adnoddau ar gyfer trochi yn y Gymraeg ar draws yr awdurdod lleol
- yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mewn perygl o ddeilliannau andwyol, er enghraifft y disgyblion hynny y mae tlodi yn cael effaith arnynt, y rhai ag ADY neu'r rhai â rhwystrau eraill a nodwyd rhag cynnydd, yn dysgu ac yn gwneud cynnydd mewn caffael y Gymraeg
- yn datblygu diwylliant, ethos cynhwysol a chyfeiriad strategol sy'n cefnogi cynnydd a lles yr holl ddisgyblion
- yn nodi ac yn mynd i'r afael â meysydd i'w gwella, rheoli a llywodraethu
- yn sicrhau bod dysgu proffesiynol yn cefnogi gwelliant ac yn arfogi pob un o'r staff i gyflawni eu rolau

Dylai arolygwyr ystyried yr agweddau isod yn sgil y gwahaniaeth a wnânt i ddysgu, lles a datblygiad y disgyblion. Dylent ystyried pa mor dda y mae arweinwyr:

- yn sefydlu gweledigaeth ar gyfer trefniadau trochi yn y Gymraeg yn eu hawdurdod lleol
- yn datblygu ac yn cynnal darpariaeth ar gyfer trochi yn y Gymraeg yn unol â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)
- yn datblygu diwylliant, ethos cynhwysol a chyfeiriad strategol sy'n canolbwyntio'n addas ar wella'r ffordd y mae disgyblion yn dysgu'r Gymraeg a'u lles
- yn gosod ac yn cyfleu **disgwyliadau uchel** ar gyfer staff, disgyblion a nhw eu hunain
- yn meddu ar weithdrefnau derbyn clir
- **yn gwerthuso** cryfderau'r darparwyr a'r meysydd sydd angen eu gwella, ac yn

ysgogi gwelliant

- wedi sefydlu hanes da o wneud a chynnal gwelliannau, a’r graddau y maent wedi arwain at effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion
- yn cynllunio ac yn cyflwyno **cyfleoedd dysgu proffesiynol** ar gyfer staff sy’n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion
- yn rheoli **perfformiad** staff i wella’u harfer a mynd i’r afael â thanberfformio lle mae angen
- yn hyrwyddo’r **Gymraeg**, ac yn cymryd camau i fynd i’r afael â blaenoriaethau cenedlaethol eraill, lle bo’n briodol (er enghraifft, tegwch, diwygio ADY, y Cwricwlwm i Gymru)
- yn darparu **llywodraethu** effeithiol sy’n cynnig cymorth a her
- yn dosbarthu **rolau a chyfrifoldebau** i ddiwallu anghenion disgyblion ac ysgogi gwelliant yn y ddarpariaeth ar gyfer trochi yn y Gymraeg
- yn ystyried baich gwaith a lles staff
- yn datblygu perthnasoedd cynhyrchiol gyda rhieni, ysgolion partner / UCDau, cyrff allanol a’r gymuned ehangach
- yn defnyddio **adnoddau** i sicrhau addysgu a dysgu o ansawdd uchel a chymorth ar gyfer lles disgyblion
- yn defnyddio cyllid grantiau i wella deilliannau